Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Alison Hubble**

**Caernarfon**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/09/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 24 Ionawr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | *Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu gwneud hynny.* |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn hapus ac mae ganddynt gydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth, ac maent yn hyderus i gyfleu eu hanghenion. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n garedig ac mae'n cefnogi'r plant mewn modd cynnes a chadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle, y teganau a'r adnoddau yn addas i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn briodol ac yn deall ei chyfrifoldebau rheoliadol. Mae'n gwneud yn siŵr bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cadw'n gyfredol, a bod y rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad eu plant ac am unrhyw newidiadau i'r lleoliad.

## Llesiant

Mae'r plant yn cael dewis sut maent am dreulio eu hamser a chânt eu cefnogi i ddilyn eu diddordebau eu personol. Maent yn symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac yn hyderus wrth ofyn am y pethau y maent am eu cael. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth ofyn am fwy o ddiod pan fyddant am ei gael ac wrth ofyn am gymorth y gwarchodwr plant i gyrraedd y teganau maent am chwarae â nhw y tu allan.

Mae'r plant wedi setlo ac maent wedi meithrin cydberthnasau cynnes â'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd gwarchod plant. Maent yn awyddus i sgwrsio â nhw a'u cynnwys yn eu chwarae ac maent yn gwybod eu bod yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau. Er enghraifft, drwy dynnu sylw at yr adar yn yr ardd a sgwrsio â'r gwarchodwr plant amdanynt. Mae'r plant yn hyderus i fynd at y gwarchodwr plant i gael cysur, ac mae hi'n rhoi anogaeth gadarnhaol iddynt ac yn eu cofleidio pan fydd angen. Er enghraifft, pe baent yn brifo eu hunain, byddent yn dangos hynny i'r gwarchodwr plant, sy'n ymateb iddynt mewn ffordd gariadus.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn dechrau gwneud ffrindiau. Maent yn awyddus i chwarae gyda'i gilydd ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Er enghraifft, aeth dau blentyn ar y teganau reidio. Roeddent yn dilyn ei gilydd, gan chwerthin a pharablu'n llon. Wrth iddynt chwarae gyda'i gilydd, mae'r plant yn dysgu i gymryd tro a rhannu, er enghraifft, drwy ganiatáu i'w ffrindiau gael tro ar y siglen yn fodlon.

Caiff y plant ddigon o amser ac anogaeth i ddysgu sut i gwblhau tasgau drostynt eu hunain, megis bwydo eu hunain amser cinio, golchi eu dwylo a gwisgo eu hesgidiau a'u cotiau eu hunain. Mae hyn yn eu helpu i fagu hyder ac yn ychwanegu at eu hannibyniaeth.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae polisi diogelu priodol ar waith ganddi ac mae'n ymwybodol o'r camau cywir i'w dilyn pe bai ganddi unrhyw bryderon am blentyn y mae'n gofalu amdano. Mae'n sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael y safle mewn argyfwng drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd, a gaiff eu cofnodi'n briodol. Cedwir cofnodion o bresenoldeb y plant, ond nid yw'r rhain yn cynnwys amseroedd cyrraedd na gadael.

Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac mae'n cofnodi pob damwain yn gywir. Mae'n hybu arferion iach a hydradu da drwy sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael i'r plant drwy'r dydd, drwy ddarparu prydau iach a thrwy ofyn i'r rhieni ddarparu byrbrydau iach. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo pan fo angen, megis wrth gyrraedd y lleoliad, ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i dreulio amser yn yr awyr agored a datblygu eu sgiliau corfforol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Mae'n garedig ac mae'n delio ag unrhyw ymddygiad digroeso mewn modd pwyllog a theg. Mae'n defnyddio dulliau cadarnhaol i atgoffa'r plant sut i reoli eu hymddygiad eu hunain ac yn defnyddio canmoliaeth i'w helpu i gydnabod pan fyddant yn rhyngweithio'n dda. Er enghraifft, gwnaeth y gwarchodwr plant atgoffa'r plant yn dyner ond yn glir sut i ddringo i fyny'r llithren a rhoi llawer o ganmoliaeth iddynt pan wnaethant hynny'n briodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sy'n ddiddorol ac sy'n helpu'r plant i ddysgu a meithrin eu sgiliau, gan gynnwys cymysgedd da o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, cymerodd y plant ran mewn her ‘30 diwrnod gwyllt’ drwy'r haf lle gwnaethant blannu blodau a dysgu am yr amgylchedd naturiol o'u cwmpas drwy archwilio coed, planhigion, blodau a bywyd gwyllt. Fe ddangosodd y gwarchodwr plant dystiolaeth o sut mae hi’n sicrhau bod y rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eu plentyn a gwybodaeth bwysig am eu hamser yn y lleoliad. Mae’n gwneud hyn drwy anfon negeseuon a lluniau yn rheolaidd drwy negeseuon ar-lein unigol diogel ac hefyd wedi creu neges grŵp i rannu gwybodaeth yn gyflym.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd priodol i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant wedi llunio polisi ac asesiad risg sy'n nodi'r gweithdrefnau ychwanegol sydd ar waith i atal lledaeniad posibl COVID-19, gan gynnwys peidio â caniatáu rieni i fewn i'r adeilad a glanhau ychwanegol. Mae asesiadau risg ar waith ond ni chânt eu hadolygu'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod unrhyw beryglon posibl newydd wedi cael eu nodi; gwelsom rai peryglon nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr asesiad risg. Gwnaethom drafod hyn â'r gwarchodwr plant, a aeth i'r afael â'r mater yn brydlon.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn darparu dewis digonol o deganau ac adnoddau i'r plant, gan gynnwys doliau, cerbydau bach, blociau adeiladu a deunyddiau celf a chrefft. Gall y plant gael gafael ar deganau ac adnoddau yn hawdd wrth iddynt chwarae. Mae digon o le yn yr ardal chwarae awyr agored i'r plant chwarae ac archwilio. Mae amrywiaeth dda o gyfarpar i'r plant allu chwarae a datblygu eu dysgu a'u sgiliau corfforol, gan gynnwys tŷ bach twt, ffrâm ddringo, siglenni, llithren ac amrywiaeth o deganau reidio.

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o gyfarpar i gefnogi sgiliau annibynnol y plant iau. Er enghraifft, mae seddi toiled i blant bach ganddi a photi a stôl step yn yr ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod fel bod y plant yn gallu defnyddio'r toiled a golchi eu dwylo yn annibynnol. Dywedodd wrthym hefyd ei bod yn glanhau'r teganau ar ddiwedd pob diwrnod. Er nad yw hyn yn cael ei gofnodi ar hyn o bryd, mae'r gwarchodwr plant wedi anfon cofnod glanhau a grëwyd ganddi ers hynny er mwyn dechrau cadw cofnod. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y gall y plant ddefnyddio bwrdd y gegin i fwyta eu prydau neu wneud gweithgareddau crefft. Pan fyddant yn chwarae yn y lolfa, bydd y plant yn eistedd ar y llawr fel arfer a gallant ddod â'u clustogau eu hunain i mewn i'w defnyddio pe dymunant, er bod y rhan fwyaf yn dewis eistedd ar y llawr.

## Arwain a Rheoli

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl a'i chyfrifoldebau rheoliadol, ac mae amrywiaeth o bolisïau ganddi sy'n golygu ei bod yn gallu rhedeg ei lleoliad yn briodol. Mae'r polisïau hyn yn glir ac yn llawn gwybodaeth, a chânt eu diweddaru yn rheolaidd. Roedd y rhieni hefyd yn cael copi o holl bolisïau'r lleoliad bob tro y cânt eu diweddaru. Rhydd y datganiad o ddiben ddisgrifiad clir a chywir o'r lleoliad, gan ddarparu digon o wybodaeth i rieni wneud dewis ar sail gwybodaeth. Mae'r ddogfen hefyd yn adlewyrchu'r gweithdrefnau newydd a roddwyd ar waith yn ystod pandemig COVID-19, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am y newidiadau.

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio adborth gan y rhieni a'r plant yn rheolaidd, ac mae'n nodi unrhyw welliannau arfaethedig mewn adroddiad blynyddol ar yr adolygiad o ansawdd y gofal. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau a wnaed hyd yma a'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol ac roedd yn rhoi cofnod clir o'r ffordd roedd y gwarchodwr plant yn ymateb i unrhyw welliannau a awgrymir.

Gwnaiff y gwarchodwr plant yn siŵr bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ddilys ac yn gyfredol iddi hi ei hun yn ogystal ag i'w chynorthwyydd. Roedd y cofnodion a ddarparwyd yn dangos bod y gwarchodwr plant yn casglu'r holl wybodaeth ofynnol am y plant cyn iddynt ddod i'r lleoliad, gan ei galluogi i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol y plant.

Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud bod y gwarchodwr plant yn rhannu gwybodaeth â nhw am ddatblygiad eu plentyn ac am unrhyw newidiadau i'r lleoliad yn rheolaidd. Gwnaethant hefyd ddweud ei bod yn hawdd iawn mynd at y gwarchodwr plant a'i bod yn barod i helpu gydag unrhyw ymholiadau a oedd ganddynt.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1- Sicrhau y caiff asesiadau risg eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru i gynnwys unrhyw beryglon posibl newydd i ddiogelwch y plant.

A2- Cadw cofnodion o ran glanhau teganau, adnoddau ac ardaloedd a ddefnyddir gan y plant.

| **Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni** |
| --- |

| **Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
| --- | --- |
| Nid oedd ffeiliau rhai o'r plant yn cynnwys manylion cyswllt meddyg teulu neu ymarferydd meddygol. | Rheoliad 30 (1) (a) |

Os na fydd darparwyr yn llwyddo i wella, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Os bydd darparwyr yn methu â gweithredu â blaenoriaeth, gallwn uwchgyfeirio'r mater at
Banel Gwella a Gorfodi.

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
| --- | --- |
| Nid yw'r gwarchodwr plant yn cydymffurfio â Rheoliad 30 - cadw cofnodion cywir o bresenoldeb. Mae hyn am na wnaeth gadw cofnod cywir o amseroedd cyrraedd a gadael y plant ar y cofrestrau dyddiol. Gallai peidio â chael cofnod cywir o'r plant sy'n bresennol ar unrhyw adeg beri risg pe bai argyfwng oherwydd efallai na fyddai'r gwarchodwr plant yn siŵr bod pawb wedi gadael yr adeilad yn ddiogel am nad oedd yn sicr pwy oedd eisoes wedi gadael y lleoliad, er enghraifft. | Rheoliad 30 (1) (a) |

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/12/2021